

## Tasg 2

# Hir!

### Geiriau amser

Dyma ran o'r testun rydych chi wedi ei ddarllen. Y tro yma, mae e wedi cael ei ysgrifennu ar ffurf paragraffau.

#### Gwneud siocled

Mae siocled yn cael ei wneud o ffa arbennig. Mae'r ffa hyn yn tyfu ar goeden drofannol o'r enw Theobroma cacao. Enw arall yw'r goeden coco. Mae'r ffrwythau'n tyfu'n syth o'r canghennau.

Pan fydd y ffrwythau'n aeddfed, mae'r ffermwyr yn eu casglu nhw. Fel arfer, maen nhw'n defnyddio *machete* i'w torri o'r coed.

Ar ôl casglu'r ffrwythau, mae'r ffermwyr yn agor y ffrwythau â llaw, a'r tu mewn iddyn nhw, mae pwlp gwyn sy'n cynnwys tua 30-40 o ffa. Mae'r rhain yn chwerw iawn. Dydyn nhw ddim yn flasus fel y siocled byddan nhw'n ei greu.

Yna, mae'r ffermwyr yn eplesu'r ffa. Mae'r ffermwyr yn gosod y ffa mewn biniau arbennig neu maen nhw'n eu rhoi nhw o dan ddail banana i'w heplesu. Yn ystod y broses, mae'r ffa'n troi'n llai chwerw.

Ar ôl cael eu heplesu, mae'r ffa'n cael eu sychu yn yr haul am ddyddiau. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r blas yn dal i ddatblygu.

Mae'r ffa'n cael eu cludo i ffatri wedyn.

Dyma rai cysyllteiriau amser:

ar ôl

cyn

nes

ers

pan

cyn gynted â

yna

wedyn

Mae cysyllteiriau amser yn dweud pryd mae rhywbeth yn digwydd ac maen nhw'n cysylltu brawddegau neu gymalau.

1. Tanlinellwch y cysyllteiriau amser yn y darn ar y dudalen flaenorol.
2. Defnyddiwch gysylltair amser addas yn y darn hwn:

### Prynu anrheg pen-blwydd

Aeth Alex i'r dref brynhawn dydd Sadwrn i brynu anrheg pen-blwydd i'w ffrind.

Daliodd hi'r bws dau o'r gloch a chyrhaeddodd hi am hanner awr wedi dau. Cerddodd hi tuag at y dref ac ..... aeth hi tuag at y siop siocledi.

..... mynd i mewn i'r siop siocledi, edrychodd Alys yn y ffenest.

Roedd llawer o ddewis yno ac felly cerddodd i mewn.

..... oedd hi yn y siop, penderfynodd hi brynu bar mawr o siocled i'w ffrind oherwydd roedd e'n rhatach na'r bocsys ac roedd hi'n gwybod bod ei ffrind yn hoffi'r bar yma'n fawr.

Gadawodd hi'r siop a'r dref ac aeth adre ar y bws.

..... mynd adre, lapiodd hi'r bar. .... ffoniodd hi ei ffrind ac aeth â'r bar i dŷ ei ffrind.

Roedd Lisa, ei ffrind, wrth ei bodd ..... welodd hi'r anrheg yn llaw Alex. "Tyrd i mewn i'w rannu gyda mi", dywedodd ..... gweld beth oedd yr anrheg.

A dyna lle bu Alex a Lois drwy'r nos, yn edrych ar ffilm ac yn mwynhau'r siocled.

3. Ceisiwch ddefnyddio rhai o'r cysyllteiriau hyn pan fyddwch chi'n ysgrifennu.

Edrychwch eto ar y darn "Nos Sadwrn" ysgrifennoch chi yn yr adran **Tasgau** sy'n mynd gyda'r darn **Cyffrous!**

Ailysgrifennwch y darn gan ddefnyddio rhai o'r cysyllteiriau hyn.

Ydych chi'n meddwl bod hyn yn gwella'r darn? Pam?